# Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

The ME Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 19 Chwefror 2018

Dyddiad cyhoeddi: 21 Mai 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-805-7



© Hawlfraint y Goron 2018

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom .... 5

2. Crynodeb o'n harolygiad .... 6

3. Yr hyn a ganfuom .... 8

   Ansawdd profiad y claf .... 10

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .... 14

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .... 18

4. Beth nesaf? .... 21

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau  annibynnol .... 23

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .... 24

   Atodiad B – Cynllun gwella .... 25

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o The ME Clinic, ar 19 Chwefror 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom fod The ME Clinic yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth effeithiol i'w cleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas at ddarparu triniaethau laser a golau pwls dwys.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd cleifion yn derbyn gwybodaeth ddigonol a manwl cyn ac ar ôl triniaeth.
- Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion, gan geisio adborth yn rheolaidd i wella gwasanaethau lle y bo hynny'n berthnasol
- Roedd y gwasanaeth yn lân, yn daclus ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda
- Roedd contractau ar waith i sicrhau bod y safle a'r offer yn cael eu cynnal a'u cadw a'u gwasanaethu, er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch yr holl aelodau o staff ac ymwelwyr
- Roedd cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel
- Roedd staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd mewn nifer o feysydd, ac roeddent yn cael eu monitro'n aml wrth iddynt ddefnyddio'r peiriannau laser a golau pwls dwys, i sicrhau bod eu technegau, eu sgiliau a'u gwybodaeth yn unol â disgwyliadau'r gwasanaeth.

Rydym yn argymell y gallai’r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Dylid diweddaru'r polisi cwynion a'r Datganiad o Ddiben[1] yn ogystal ag unrhyw ddogfennau eraill fel eu bod yn cynnwys cyfeiriad e-bost AGIC

- Dylid sicrhau bod y ddau beiriant laser/golau pwls dwys, nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio gan y gwasanaeth, yn cael eu dileu o'r tabl gwasanaethau a chyfleusterau yn y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben.

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.

[1]Mae'n rhaid i bob darparwr gwasanaeth feddu ar Ddatganiad o Ddiben, a dylai gynnwys manylion penodol ynghylch y gwasanaeth, pa driniaethau a ddarperir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw offer a ddefnyddir. Am ragor o wybodaeth, ewch i agic.org.uk

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae The ME Clinic wedi'i gofrestru gydag AGIC fel ysbyty annibynnol ar 8 Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2DX.

Cofrestrwyd y gwasanaeth am y tro cyntaf ar 3 Medi 2015.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau therapydd a Rheolwr Cofrestredig, sydd hefyd yn weithredwr laser/golau pwls dwys.

Ni ellir ond darparu amrediad o wasanaethau i unigolion dros 18 mlwydd oed trwy ddefnyddio'r canlynol:

System Laser Alba 355 ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwella symptomau Soriasis
- Gwella symptomau Ecsema

System Laser Gwaredu Tatŵs ASSET ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu tatŵs

System Laser Epsilon/golau pwls dwys ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu gwythiennau edau
- Gwaredu gwallt
- Adfywio'r croen
- Clirio acne

System Superbium ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu gwallt
- Gwaredu gwythiennau
- Ieuangu'r croen
- Clirio acne
- Gwaredu tatŵs

- Gwaredu pigmentiad
- Ffwng ewinedd

System Square Epil ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu gwallt
- Gwaredu gwythiennau
- Gwaredu pigmentiad
- Ffwng ewinedd

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Canfuom fod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir a bod y tîm yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn ac ar ôl triniaeth i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Roedd gan y gwasanaeth brosesau priodol ar waith i sicrhau bod ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal mewn modd urddasol a phreifat.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu eu sylwadau ar y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu. Cwblhawyd cyfanswm o 7 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae'r holl staff yn The ME Clinic yn broffesiynol ac yn groesawgar iawn. Gwasanaeth gwych"*
>
> *"Mae [enw aelod o staff] wedi bod yn wych gyda fi - mae'n deall i'r dim beth dwi ei eisiau o'r driniaeth, ac mae'n llawn gwybodaeth am y driniaeth. Ni welaf ddim o'i le ar y gwasanaeth a ddarperir"*
>
> *"Mae unrhyw broblemau sydd wedi bod gen i wedi cael eu parchu a'u datrys, ac mae pob aelod o staff dwi wedi cwrdd â hwy wedi bod yn gyfeillgar ac yn gwrtais iawn. Byddwn i'n bendant yn argymell y lle."*

### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom y gofynnwyd i gleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol cyn y driniaeth gychwynnol, a oedd yn cael ei llofnodi gan y claf a'r gweithredwr.

Roedd hanes meddygol/cyflyrau cleifion yn cael eu gwirio yn ystod pob apwyntiad dilynol i sicrhau bod y driniaeth yn cael ei darparu mewn modd diogel a'i chofnodi ar gofnodion cleifion.

### Urddas a pharch

Mae'r clinig wedi'i leoli mewn adeilad mawr a chanddo bedwar llawr. Mae iddo system intercom yn y brif fynedfa, ac mae'n rhaid i aelodau o staff roi mynediad i ymwelwyr at y fynedfa.

Mae gan bob ystafell driniaeth ddrws â chôd arno, sy'n rhwystro mynediad heb awdurdod. Cyn unrhyw driniaeth, cynhelir trafodaethau gyda chleifion i sicrhau eu bod yn deall sut bydd y driniaeth yn cael ei chyflawni.

Roedd digon o le ar gyfer cynnal sgyrsiau yn breifat, a gallai gwybodaeth bersonol gael ei thrafod heb i neb ei chlywed.

### Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Mae pob claf yn derbyn ymgynghoriad cyn dechrau unrhyw driniaeth fel y gall y broses a'r canlyniad/canlyniadau gael eu hesbonio'n llawn. Yn ogystal, mae risgiau ac ôl-ofal hefyd yn cael eu trafod cyn y gofynnir i glaf lofnodi'r ffurflen ganiatâd yn cadarnhau ei ddealltwriaeth a'i gytundeb i driniaeth. Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni caniatâd wedi'u cwblhau, a oedd yn dangos bod yr holl feysydd wedi'u gwirio, ac roedd llofnodion cleifion a staff yn amlwg arnynt hefyd.

Canfuom fod cleifion yn derbyn digon o wybodaeth er mwyn iddynt wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth. Mae hyn oherwydd bod cleifion yn derbyn ymgynghoriadau un i un gyda gweithredwr laser/golau pwls dwys cyn i unrhyw driniaeth ddechrau. Roedd trafodaethau â chleifion yn cynnwys y risgiau, y buddion a chanlyniad tebygol y driniaeth a gynigir. Cytunodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth ynghylch eu triniaeth. Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf croen cyn i driniaeth ddechrau ac yn derbyn cyngor ôl-ofal ar ôl y driniaeth. Gwelsom enghreifftiau o wybodaeth ysgrifenedig fanwl yn cael ei rhoi i gleifion.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd ffolder, a oedd yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer y cleifion ar gael yn y dderbynfa, ac roedd yn cynnwys y Canllaw i Gleifion a'r Datganiad o Ddiben. Roedd y dogfennau hyn yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Fodd bynnag, dylid diweddaru'r cyfeiriad e-bost yn y Datganiad o Ddiben fel ei fod yn cynnwys cyfeiriad e-bost newydd AGIC. Ar ben hynny,

mae'n rhaid diweddaru'r canllaw i gleifion a'r Datganiad o Ddiben i ddangos nad yw'r ddau beiriant laser/golau pwls dwys bellach yn cael eu defnyddio gan y gwasanaeth (Laser Omniyag a Unilite Diode).

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid diweddaru'r Canllaw i Gleifion a'r Datganiad o Ddiben i sicrhau bod cyfeiriad e-bost newydd AGIC yn cael ei restru, ac nad yw'r ddau beiriant laser/golau pwls dwys nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio gan y gwasanaeth yn cael eu cynnwys yn y tabl gwasanaethau a chyfleusterau.

### Cynllunio a darparu gofal

Roedd yr holl gleifion yn derbyn apwyntiad ymgynghori cyn dechrau ar driniaeth, a oedd yn cynnwys asesiad math o groen. Gwelsom fod canlyniad yr asesiad hwn yn cael ei gofnodi a'i ddefnyddio i gynorthwyo gyda thriniaethau. Gwelsom enghreifftiau o wybodaeth a dogfennau ôl-ofal, a oedd yn cynnwys risgiau a manteision triniaeth.

Gwelsom enghreifftiau o gofnodion cleifion, a oedd yn fanwl ac yn cael eu diweddaru gan y claf a'r ymarferydd yn ystod pob apwyntiad.

Canfuom fod y gwasanaeth yn cynnal cofrestr driniaeth gyffredinol a oedd yn benodol i bob peiriant laser/golau pwls dwys. Roedd y cofnodion yn fanwl ac yn drylwyr, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

### Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd yr ystafelloedd triniaeth, a oedd yn cynnwys y peiriannau laser a golau pwls dwys, wedi'u lleoli ar lawr cyntaf a llawr gwaelod yr adeilad. Gellir cael mynediad at bob ystafell trwy ddefnyddio'r grisiau. Roedd canllaw ar waith i gynorthwyo cleifion pe bai ei angen arnynt.

Cyn i unrhyw apwyntiadau gael eu gwneud, dywedodd staff wrthym fod cleifion yn cael eu hysbysu ynghylch hygyrchedd yr adeilad (grisiau), y tu mewn a thu allan. Caiff hyn hefyd ei ddogfennu yn y Datganiad o Ddiben.

### Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Roedd gan The ME Clinic systemau ar waith i geisio adborth gan gleifion. Roedd holiaduron yn cael eu dosbarthu/eu hanfon yn rheolaidd at gleifion, er mwyn eu galluogi i gyflwyno adborth yn dilyn eu triniaeth.

Mae dadansoddi rheolaidd o unrhyw adborth yn digwydd, ac mae staff yn ymdrin ag unrhyw faterion a nodir. Caiff canlyniadau eu harddangos yn y ffurflen wybodaeth ar gyfer cleifion sydd ar gael yn y dderbynfa.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roedd systemau ar waith oedd yn sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl. Canfuom fod y peiriannau laser/golau pwls dwys yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr, a bod y staff yn gyfredol o ran eu hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriannau.

Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn amlwg yn lân ac yn daclus, ac roedd staff yn ymwybodol o'r tasgau glanhau sydd angen eu cwblhau i sicrhau bod safonau glendid yn aros yn uchel.

Canfuom fod y gwasanaeth wedi cymryd camau i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

### Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles staff sy'n gweithio yn y clinig, a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Gwnaethom edrych ar ddetholiad o drefniadau cynnal a chadw ar gyfer yr adeilad. Gwelsom dystiolaeth fod Profion Dyfeisiau Cludadwy yn gyfredol, i helpu i sicrhau bod offer trydanol bach yn addas i'w pwrpas ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Darparwyd ardystiad i ddangos bod gwiriadau diogelwch nwy a gwiriadau gwifrau trydanol bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad yn gyfredol.

Gwnaethom edrych ar rai o'r trefniadau sydd ar waith o ran diogelwch tân. Roedd elfennau o'r risgiau tân wedi'u hasesu trwy waith asesu y landlord a'r Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau; ond dywedwyd wrthym y byddai'r cwmni sydd yn gyfrifol am gynnal diogelwch tân ac offer tân yn yr adeilad yn cwblhau asesiad risg llawn yn 2018. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod hyfforddiant tân ar gyfer staff yn cael ei gynnwys yn y rhaglen ymsefydlu ac yn

flynyddol ar ôl hynny, gyda driliau tân rheolaidd yn digwydd, a oedd yn cael eu dogfennau er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r hyn i'w wneud pe bai argyfwng.

Roedd labeli ar y diffoddwyr tân yn dangos eu bod yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol, ac roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân.

Roedd staff wedi derbyn hyfforddiant ar gymorth cyntaf. Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael ac roedd gwiriadau'n cael eu cwblhau bob mis i sicrhau bod yr offer o fewn eu dyddiad defnyddio a'u bod yn addas at y diben.

### Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Gwelsom fod yr adeilad yn weledol lân ac yn daclus. Ni chafodd unrhyw bryderon eu lleisio gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad. Ar ben hynny, cytunodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn llwyr fod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus.

Disgrifiodd staff yn fanwl y trefniadau rheoli heintiau yn y gwasanaeth, ac roedd y polisi yn gyson â'r trefniadau hynny. Roedd amserlenni glanhau ar waith, a byddai staff yn eu llofnodi unwaith y byddai'r tasgau wedi'u cwblhau. Roedd y tasgau'n cynnwys glanhau'r offer a'r ardaloedd triniaeth rhwng apwyntiadau cleifion.

Canfuom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a chasglu gwastraff clinigol.

### Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 18 mlwydd oed yn unig. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn.

Roedd polisi diogelu oedolion ar waith, a oedd yn cynnwys gweithdrefn glir i staff ei dilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu yn codi.

Disgrifiodd staff sut y byddent yn ymdrin ag unrhyw faterion diogelu. Roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom dystiolaeth fod y peiriannau laser a golau pwls dwys wedi'u graddnodi'n rheolaidd[2] a'u bod yn cael eu gwasanaethu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwyr.

Gwelsom fod protocolau triniaeth ar waith ar gyfer y peiriannau laser/golau pwls dwys, ac roedd y rhain yn cael eu goruchwylio gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Gwelsom fod contract ar waith gydag Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau, a bod rheolau lleol[3] yn manylu ar weithrediad diogel y peiriannau. Roedd y rheolau hyn wedi cael eu hadolygu gan yr Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau, a gwelsom eu bod wedi'u llofnodi gan staff sy'n gweithredu'r peiriannau laser, a oedd yn dangos eu bod yn ymwybodol o'r rheolau hyn ac yn cytuno i gydymffurfio â nhw.

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y gweithredwyr laser/golau pwls dwys wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth[4].

Gwelsom fod offer amddiffyn llygaid ar gael i gleifion a gweithredwyr y peiriannau laser a golau pwls dwys. Roedd yr offer amddiffyn llygaid i'w weld mewn cyflwr da, a chadarnhaodd staff fod sbectolau yn cael eu gwirio'n rheolaidd am unrhyw ddifrod.

Roedd arwyddion y tu allan i'r ystafelloedd triniaeth, a oedd yn nodi pryd roedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio. Dywedwyd wrthym fod y peiriannau'n cael

---

[2] Gall graddnodi rheolaidd helpu i sicrhau bod perfformiad y peiriant laser yn aros yn gyson dros amser, gan sicrhau'r perfformiad ac ansawdd cynnyrch gorau posibl.

[3] Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel a bod yn berthnasol i'r gwaith o reoli peiriannau laser, systemau golau pwls dwys a deuodau allyrru golau yn ddiogel o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

[4] Mae hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ar gyfer gweithredwyr sy'n defnyddio laserau a systemau golau pwls dwys ar gyfer triniaethau croen amrywiol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar ddefnyddio laserau a systemau golau pwls dwys yn ddiogel.

eu cadw'n ddiogel bob amser. Roedd yr allweddi cychwyn ar gyfer pob peiriant yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio, gan atal mynediad heb awdurdod.

Gwnaethom adolygu'r dogfennau sy’n ymwneud â'r asesiad risg amgylcheddol. Gwelsom fod yr Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau wedi cwblhau asesiad risg wedi'i ddiweddaru, ac nid oedd yn nodi unrhyw feysydd i'w gwella.

### Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Canfuom fod y gwasanaeth yn cwblhau nifer o weithgareddau gwella ansawdd. Er enghraifft, roedd y gwasanaeth yn ceisio barn y cleifion yn rheolaidd fel ffordd o lywio gofal, ac roeddent yn cwblhau archwiliadau o gofnodion cleifion i sicrhau cysondeb gwybodaeth ac yn asesu risgiau mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, canfuom nad oedd yr holl feysydd hyn yn cael eu cofnodi'n ffurfiol, a gwnaethom argymell y dylid gwneud tystiolaeth ysgrifenedig ar gael yn y dyfodol er mwyn cadarnhau canlyniadau'r archwiliadau.

### Rheoli cofnodion

Canfuom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel, mewn cwpwrdd cloadwy. Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod tystiolaeth fod nodiadau cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Canfuom fod gan The ME Clinic dîm bach ond effeithiol ar waith. Roedd y tîm yn cael ei gefnogi gan strwythur rheoli, ac roedd staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu diweddaru a'u hadrodd i staff yn rheolaidd. Roedd gan y gwasanaeth systemau ar waith i sicrhau y caiff cwynion eu cofnodi a'u hateb mewn modd amserol.

Roedd systemau sefydledig ar waith i gwblhau gwiriadau cyn cyflogi, ac i gefnogi staff i fod yn gyfredol o ran eu sgiliau a'u gwybodaeth.

### Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Caiff The ME Clinic ei reoli gan y Rheolwr Cofrestredig o ddydd i ddydd, a chaiff ei gefnogi gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae gan y gwasanaeth ddau weithredwr laser/golau pwls dwys, yn ogystal â'r Rheolwr Cofrestredig.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisïau ar waith, a oedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn aros yn gyfredol ac yn berthnasol. Hysbysir staff ynghylch unrhyw newidiadau i bolisïau a/neu weithdrefnau, ac mae'n ofynnol iddynt lofnodi a dangos eu bod wedi darllen a deall unrhyw newidiadau.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a gwelsom dystiolaeth o gofnodion y cyfarfodydd diweddar. Mae nodiadau ac eitemau agenda penodol yn sicrhau y gallant gael eu deall a'u rhannu ymysg aelodau o staff nad ydynt yn gallu mynychu.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyfredol ar waith.

## Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi cwynion ar waith, ond bod angen diweddaru'r polisi hwn er mwyn cynnwys manylion cyswllt AGIC. Roedd y Canllaw i Gleifion yn cynnwys proses i gleifion ei dilyn pe bai angen iddynt wneud cwyn, ac roedd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

Roedd gan y gwasanaeth system ar waith i gofnodi cwynion a phryderon. Ar adeg yr arolygiad, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn pe bai angen gwneud hynny.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid diweddaru'r polisi cwynion i gynnwys manylion cyswllt AGIC.

## Cynllunio’r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl ddefnyddwyr awdurdodedig a oedd yn gweithredu'r peiriannau laser a golau pwls dwys wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth, a'u bod hefyd wedi cwblhau hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriannau laser a golau pwls dwys trwy ganllawiau'r gwneuthurwyr.

Roedd gan yr holl aelodau o staff raglen hyfforddiant orfodol ar waith, a oedd yn sicrhau eu bod yn cynnal eu sgiliau a'u gwybodaeth mewn nifer o feysydd, gan gynnwys cymorth cyntaf a diogelu. Ar ben hynny, roedd staff yn cwblhau gwaith cysgodi ac adolygiadau cymheiriaid ar waith ei gilydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau y cynhelir safonau wrth weithredu'r peiriannau laser a golau pwls dwys.

## Arferion recriwtio a chyflogi’r gweithlu

Dywedwyd wrthym ynghylch yr arferion recriwtio a chyflogi sydd ar waith i sicrhau y cynhelir gwiriadau cyflogi priodol mewn perthynas ag aelodau newydd o staff. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd[5], y dywedwyd wrthym y byddent yn cael eu diweddaru bob tair blynedd ar gyfer pob aelod o staff. Gwnaethom adnabod hyn fel arfer da am ei fod yn galluogi'r gwasanaeth i wneud a chynnal dewisiadau recriwtio mwy diogel.

Roedd rhaglen ymsefydlu ar waith i gefnogi aelodau newydd o staff, ac roedd ardystiad i ddangos eu bod wedi'i chwblhau yn cael ei ddogfennu.

Dywedwyd wrthym fod rhaglen o arfarniadau blynyddol ar waith ar gyfer staff, a oedd yn edrych ar berfformiad a datblygiad.

[5] Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel, ac yn atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed. Mae wedi disodli'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA).

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw’r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy’n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o’r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000
- Cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
- Diwallu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae’r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: The ME Clinic

## Dyddiad yr arolygiad: 19 Chwefror 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae'n rhaid diweddaru'r Canllaw i Gleifion a'r Datganiad o Ddiben er mwyn sicrhau y caiff cyfeiriad e-bost newydd AGIC ei restru, ac nad yw'r peiriannau laser/golau pwls dwys, nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio gan y gwasanaeth, yn cael eu cynnwys o fewn y tabl gwasanaethau a chyfleusterau. | Rheoliad 6 (1) (2) a 7(1) (f) | Newidiadau sydd eisoes wedi'u gweithredu gyda chopïau diweddaredig o fewn y canllaw i gleifion. Mae copïau i AGIC eu hadolygu ar gael ar gais | Rheolwr Cofrestredig | Ddim yn Berthnasol<br>Wedi ei Gwblhau |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw welliannau. | | | | |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Mae'n rhaid diweddaru'r polisi cwynion i gynnwys manylion cyswllt AGIC | Rheoliad 24 (4) (a) | Newidiadau sydd eisoes wedi'u gweithredu gyda chopïau diweddaredig wedi'u hargraffu a'u ffeilio. Mae copïau i AGIC eu hadolygu ar gael ar gais | Rheolwr Cofrestredig | Ddim yn Berthnasol<br>Wedi ei Gwblhau |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Phillippa Lunn

**Swydd: Rheolwr Cyffredinol**

**Dyddiad:12 Mawrth 2018**